Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Partneriaid â

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales

BWRDD CYFIAWNDER TROSEDDOL DYFED POWYS
DYFED POWYS CRIMINAL JUSTICE BOARD

# Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

## Dyfed-Powys

## Crynodeb Blynyddol

## 2025–2026



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Partneriaethau

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn amlinellu yn y gyfraith y cyd-ddyletswydd ar gomisiynwyr heddlu a throseddu, ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, i gydweithio i ddarparu system cyfiawnder troseddol effeithlon ac effeithiol ar gyfer ardaloedd heddlu.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

CPS Crown Prosecution Service

Heddlu · Police DYFED-POWYS

HM Courts & Tribunals Service

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales

Mid & West Wales Regional VAWDASV Partnership
Building happier, safer & stronger lives

dal i godi
Mid & West Wales IDVA Service
Gwasanaeth IDVA Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

HM Prison & Probation Service

Legal Aid Agency

Clinks
State of the Sector 2024
The voice of the voluntary sector working in criminal justice

Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod
Women's Justice Blueprint




GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

VS Victim Support

Witness Service.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Trosolwg

**Gweledigaeth** Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys

Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol yn ardal Dyfed-Powys, gan gynnwys gwella'r profiad i ddioddefwyr a thystion, a meithrin hyder yn y system gyfan.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol er mwyn gwneud ardal Dyfed-Powys yn ddiogel, cyfiawn a chynhwysol. Dathlu amrywiaeth ardal Dyfed-Powys, gan sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant yn sail i'r holl waith a wneir.

## Blaenoriaethau'r bwrdd

Mae gan y bwrdd gynllun trosglwyddo pedair blynedd sy'n rhedeg o fis Ebrill 2025 i fis Mawrth 2029. Mae hyn yn cyd-fynd ag amserlen y Cynllun Heddlu a Throseddu, ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Mae'r bwrdd yn cyfrannu at gynllun Cymru Gyfan gan ganolbwyntio hefyd ar flaenoriaethau lleol yn yr ardaloedd hyn.

## Dioddefwyr a thystion

Ein nod yw deall ac ymdrin ag anghenion a gwendidau dioddefwyr a thystion ym mhob agwedd ar eu profiad cyfiawnder troseddol.

## Pobl sy'n troseddu

Ein nod yw deall ac ymdrin â bregusrwydd ac/neu amryfal anghenion cymhleth unigolion sydd wedi troseddu.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Ymrwymiadau

## Gwrth-hiliaeth

Gwnaed ymrwymiad gan yr aelodau i gefnogi'r Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru, gan sicrhau bod ei flaenoriaethau wedi eu hymgorffori ym mhopeth y mae'r bwrdd a'i sefydliadau yn ei wneud.

Mae aelodau wedi ymrwymo i gymryd cyfrifoldeb personol am hunan-ddatblygiad ac ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â gwrth-hiliaeth.

## Cyfiawnder ieuenctid

Mae'r bwrdd yn cefnogi'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid i gyflawni ei gynlluniau o ran cyfiawnder ieuenctid er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

Cyflawnir hyn drwy:

- Ymgysylltu
- Nodi heriau rhanbarthol sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol
- Datrys heriau rhanbarthol a datrys problemau
- Rhannu arferion da
- Cefnogi'r cysylltiad lleol a chenedlaethol â systemau cyfiawnder oedolion ifanc

Mae cynrychiolydd rhanbarthol o'r timau troseddau ieuenctid ac atal troseddau ieuenctid yn eistedd ar y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol ac yn llefaru ar ein rhan er mwyn sicrhau bod cyfiawnder ieuenctid yn cael ei ystyried ym mhopeth y mae'r bwrdd yn ei drafod.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# BLAENORIAETH 1 – DIODDEFWYR A THYSTION



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cod Ymarfer i Ddioddefwyr – Cydymffurfio

Mae'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr yn canolbwyntio ar hawliau dioddefwyr, ac yn nodi'r safon ofynnol y mae'n rhaid i sefydliadau ei darparu i ddioddefwyr troseddau.

O dan y cod dioddefwyr, mae gan ddioddefwr yr hawl 'i gael ei atgyfeirio at wasanaethau sy'n cynorthwyo dioddefwyr, a chael gwasanaethau wedi eu teilwra i'w hanghenion'.

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) ddyletswydd i adolygu cydymffurfedd sefydliadau cyfiawnder troseddol â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau.

Er mwyn monitro cydymffurfedd sefydliadau â'r hawliau hyn yn effeithiol, roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i fod i gyhoeddi set o fetrigau lle byddai gwybodaeth gan asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cael ei rhannu â chomisiynwyr heddlu a throseddu i gyflawni'r ddyletswydd ddeddfwriaethol.

Nid yw'r metrigau hyn wedi eu cyhoeddi eto, ac mae'r dyddiad cychwyn a awgrymwyd yn flaenorol, sef 2027, yn annhebygol bellach. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi bod angen iddi adolygu opsiynau a deall diwygiadau'r Swyddfa Gartref cyn gosod amserlenni clir.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi lansio ymgynghoriad ar ddiweddariadau arfaethedig i'r cod dioddefwyr, a fydd yn rhedeg tan fis Ebrill 2026. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y meysydd canlynol:

- Disgwyliadau newydd ar gyfer asesiadau o anghenion, fel bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn asesu ac yn cyflawni'n effeithiol ar gyfer dioddefwyr
- Fframwaith newydd ar gyfer sut a phryd y dylai asiantaethau ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant sy'n ddioddefwyr
- Yr adegau cywir i gyfathrebu â dioddefwyr ynghylch gwybodaeth achos yn ystod y broses cyfiawnder troseddol
- Gwella sut a phryd y rhoddir cyfleoedd i ddioddefwyr gymryd rhan

Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio sicrhau bod hawliau'r cod yn glir, fel y gellir dwyn asiantaethau i gyfrif am eu cyflawni, a bydd yn archwilio ffyrdd o sicrhau bod dioddefwyr o bob oed yn gwybod am y cod ac yn gallu deall eu hawliau. Mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd yn gweithio gyda phobl ifanc ac arbenigwyr i ddatblygu fersiwn o'r cod dioddefwyr sy'n addas i blant.


Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) / Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a sefydliadau partner wrthi'n drafftio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Nid ymateb lledled y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol fydd hwn, ond bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu â'r bwrdd cyfiawnder troseddol lleol unwaith y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cwblhau'r broses ymgynghori a chyhoeddi beth fydd yr wybodaeth ddiweddaraf.

Er nad oes unrhyw fetrigau swyddogol, mae Dyfed-Powys wedi ymdrechu i asesu cydymffurfedd, ac mae'n cynllunio ymarfer hapsamplu a fydd yn cychwyn ym mis Ebrill. Mae Heddlu Dyfed-Powys (HDP) yn darparu data pan fo ar gael ac rydym yn parhau i drafod â sefydliadau cyfiawnder troseddol ar lefel Cymru gyfan i fynd i'r afael â'r bwlch o ran adrodd.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Mesurau arbennig




Safleoedd tystiolaeth o bell – Mae'r safleoedd hyn yn **lleoliadau sydd wedi eu cymeradwyo gan GLlTEF* i ffwrdd o ystafelloedd llys,** lle gall tystion sy'n agored i niwed, neu dan fygythiad, roi tystiolaeth mewn achos yn Llys y Goron drwy gyswllt fideo byw. Mae'r lleoliadau hyn yn dod yn estyniad o'r llys dros dro yn ystod yr achos.

Canllaw fideo – Saesneg

Canllaw fideo – Cymraeg

Cyfleusterau tystiolaeth cyswllt fideo diogel
Aberystwyth
Llanelli
Hwlffordd

*Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Yr Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion

Mabwysiadwyd dull newydd ar gyfer yr Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion ym mis Ionawr i ddarparu gwell cydweithio a sicrwydd bod blaenoriaethau yn cael y sylw y mae ei angen arnynt.
Mae'r is-grŵp bellach yn cyfarfod bob mis, gyda phob cyfarfod yn ymdrin â maes ffocws gwahanol.



| Cyfarfod 1 | Cyfarfod 2 | Cyfarfod 3 |
| --- | --- | --- |
| Y prif feysydd sy'n peri pryder<br>Meysydd i'w trafod<br>Y penderfyniadau fel y'u nodwyd gan y cadeirydd / aelodau'r is-grŵp | Canolbwyntio ar ddioddefwyr / goroeswyr<br>Gwahoddiad agored i aelodau Panel Cynghori ar gyfer Goroeswyr VAWDASV* Canolbarth a Gorllewin Cymru i roi mewnbwn ar eu gwaith, ac i rannu syniadau ar drafodaethau partneriaeth | Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr:<br>Ystyried data a chanolbwyntio ar hawliau penodol ym mhob cyfarfod |

*Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae'r dull mwy strwythuredig hwn wedi cael derbyniad da gan aelodau'r bwrdd.
Cafwyd adborth cadarnhaol gan bartneriaid, yn cynnwys Llwybrau Newydd a Paladin, a hwythau'n canmol awyrgylch amlasiantaeth y cyfarfod a'r cyfle i gydweithio.
Nid yw hyn o reidrwydd yn cael ei efelychu mewn mannau eraill, ac mae buddion y ffordd hon o weithio yn cael eu cydnabod.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Panel Cynghori Rhanbarthol ar gyfer Goroeswyr




Mae Partneriaeth Ranbarthol VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydweithio'n agos iawn â goroeswyr drwy'r panel cynghori. Mae'r panel wedi ei gynrychioli ar Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol. Mae eu hadborth wedi dylanwadu ar ddatblygiadau, megis y llysoedd sy'n canolbwyntio ar blant.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Cam-drin Domestig

## Cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Comisiynydd Cam-drin Domestig ar ymateb cyfiawnder troseddol i gam-drin domestig, ysgrifennodd y comisiynydd at bob bwrdd cyfiawnder troseddol lleol yn amlinellu argymhellion yr adroddiad. Roedd llawer o'r rhain yn gynigion ar gyfer mentrau ar lefel genedlaethol y cafodd aelodau'r bwrdd eu hysbysu amdanynt.

Un prif gais gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig oedd gwahodd cynrychiolydd rhanbarthol o swyddfa'r comisiynydd i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y bwrdd.
Canfu trafodaethau'r bwrdd y gallai fod yn fwy buddiol i'r Arweinydd Ymarfer a Phartneriaeth fod yn rhan o'r Bwrdd Goruchwylio Cam-drin Domestig sy'n eistedd ar lefel Cymru gyfan.

Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau yn lleol, ac anfonwyd gohebiaeth yn gwahodd y cynrychiolydd i fod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.

Teimlai bwrdd Dyfed-Powys hefyd y gallai fod yn gynhyrchiol i'r arweinydd fod yn bresennol yn yr is-grŵp dioddefwyr a thystion.
Felly, anfonwyd gohebiaeth hefyd o lefel leol yn gwahodd y cynrychiolydd i ymuno, a chafodd hyn ei groesawu'n gynnes.
Anfonwyd gwahoddiadau ar gyfer y cyfarfodydd i'w cynnal yn 2026 ac rydym wedi croesawu sgyrsiau yn yr is-grŵp hwn lle mae capasiti yn caniatáu presenoldeb.





Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# RASSO

## Treisio a throseddau rhywiol difrifol

Yn 2021, ariannodd y Swyddfa Gartref fenter o'r enw 'Ymgyrch Soteria'. Nod hyn oedd trawsnewid y ffordd y mae pobl yn ymchwilio i droseddau treisio ac ymosodiadau rhywiol difrifol mewn ymateb i bryderon cenedlaethol ynghylch trais yn erbyn menywod a merched. Arweinir hyn gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), ac mae'n canolbwyntio ar wella canlyniadau mewn achosion o dreisio a throseddau rhywiol difrifol, gwella'r ymateb i gyfiawnder troseddol, a sicrhau gwell ymgysylltu â dioddefwyr.

Cyflwynodd HDP ei asesiad Ymgyrch Soteria terfynol, a chafodd adborth penodol i'r heddlu gan dîm Soteria yn y Ganolfan Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched a Diogelu'r Cyhoedd (NCVPP) ym mis Hydref. Dilynwyd hyn gan ymweliad adborth hunanasesu gan NCVPP ym mis Rhagfyr.

Ers rhoi Ymgyrch Soteria ar waith, mae 86.5% o ddioddefwyr sy'n ymgysylltu â'r heddlu bellach yn cytuno i gael eu hatgyfeirio at gynghorydd annibynnol ar drais rhywiol. Mae hyn yn gynnydd o 37.4%

Treialodd HDP dîm ymchwilio i drais rhywiol (R.I.T) yng Nghaerfyrddin yn 2025. Arweiniodd gwerthusiad o'r treial hwn at gyflwyno'r elfen swyddogion cyswllt dioddefwyr pwrpasol ar draws y siroedd eraill gyda'r bwriad o gyflwyno'r tîm ar draws gweddill ardal yr heddlu.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Dangosfwrdd Effaith 2024-25

New Pathways
Life beyond sexual violence

## GWASANAETH CYNGHORI ANNIBYNNOL AR DRAIS RHYWIOL

**ISVA**

### Gwerth y Contract — £254,855

2024/25 cyfanswm cost y contract a ddarparwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddo oedd **£254,855**.

### Atgyfeiriadau — 747

2024-25 cyfanswm atgyfeiriadau trais rhywiol at Llwybrau Newydd.

### Cost fesul atgyfeiriad — £341.17

Cost amcangyfrifedig o **£341.17** fesul pob atgyfeiriad at Llwybrau Newydd.

### Atgyfeiriad trais — 332

**44%** o gyfanswm yr atgyfeiriadau yn gysylltiedig â throseddau trais.

### Cost atgyfeiriad trais

Yn cyfateb i gost o **£113,268.44** i ddarparu gwasanaethau cefnogi i ddioddefwyr trais.

### Swyddfa Gartref — £40,934

Mae adroddiad gan y Swyddfa Gartref yn nodi mai cyfanswm cost trosedd fesul pob trosedd trais yw **£40,934**.

### Amcangyfrif y Swyddfa Gartref — £13m

Gan ddefnyddio gwerthoedd y Swyddfa Gartref, gallai 332 achos o drais gostio **£13,590,088** i gymdeithas.

### Colli Cynnyrch — Cymryd amser o'r gwaith/ llai cynhyrchiol yn y gwaith

Cost - **£6,136** fesul pob achos o drais gyda chyfanswm cost dioddefwyr trais a atgyfeirir at Llwybrau Newydd yn **£20,371,52**.

# Dangosfwrdd Effaith 2024-25

New Pathways
Life beyond sexual violence

## Niwed Corfforol ac Emosiynol

Niwed corfforol ac emosiynol sylweddol, yn galw am gefnogaeth ddwys a pharhaus

Cost - **£25,366** fesul achos o drais gyda chyfanswm cost dioddefwyr trais a atgyfeiriwyd at Llwybrau Newydd = **£8,421,512**

## Gwasanaethau Iechyd

GIG a darparwyr iechyd eraill yn ymateb i niwed corfforol ac emosiynol trosedd

Cost - **£1,154** fesul achos o drais gyda chyfanswm cost dioddefwyr trais a atgyfeiriwyd at Llwybrau Newydd = **£383,128**

## Cefnogi Cleientiaid

**243 DIWRNOD**

Ar gyfartaledd mae angen cefnogaeth gan y gwasanaeth ar gleientiaid am **243 DIWRNOD**

## Ymddieithrio rhag y SCT

Mae **25 (1.6%)** o ddioddefwyr a gefnogwyd wedi tynnu'n ôl o'r system cyfiawnder troseddol er iddynt gael cefnogaeth gan ISVA*

## Yn gallu ymdopi'n well

**84%**

Roedd cleientiaid yn teimlo'n fwy abl i ymdopi gyda chefnogaeth New Pathways.

## Rhesymau am ymddieithrio

- **Yr amser y gall y broses Cyfiawnder Troseddol ei gymryd.**
- **Materion Iechyd Meddwl/straen**
- **Profiadau gwael gyda'r heddlu**
- **Dymuno gosod y niwed y tu ôl iddynt ac ailgydio yn eu bywydau**
- **Diffyg hyder yn yr Heddlu**
- **Eisiau/angen cwnsela cyn ymgysylltu gyda'r system cyfiawnder troseddol**
- **Pryderon ynghylch effaith ar y teulu**

## Panel Sicrhau Ansawdd

ADOLYGWYD 4 ACHOS

Yn Ionawr 2025, adolygodd aelodau o Banel Sicrhau Ansawdd y CHTh ddetholiad o atgyfeiriadau yn gysylltiedig ag oedolion a phobl ifanc a wnaed gan Heddlu Dyfed Powys i Llwybrau Newydd.

Roedd canfyddiadau'n cynnwys:

- Mae cysondeb swyddogion yn yr achos yn hanfodol.
- Dylid osgoi oedi wrth gael mynediad at wybodaeth o heddluoedd eraill er mwyn gostwng y risg o ddioddefwyr yn ymddieithrio.
- Byddai dull safonol o ddiweddaru ffeiliau achos ISVA yn fuddiol.

*Cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol

# Llais y Teulu a'r Cleient

New Pathways
Life beyond sexual violence

"Roeddwn i wedi bod i ffwrdd o'r gwaith ar salwch dymor hir am beth amser, ddim yn gallu ymdopi gyda'r gorbryder parlysol ar ôl beth oedd wedi digwydd i fi. Diolch i fy ISVA a'i chymorth hi drwy ddysgu technegau angori a phethau i fy helpu i fi mae gen i nawr becyn cymorth y gallaf ei ddefnyddio ac rydw i wedi dychwelyd i'r gwaith. Cefnogodd fy ISVA fi i esbonio i fy rheolwr beth oedd wedi digwydd a beth oedd fy anghenion. Mae gen i nawr gynllun mewn lle yn y gwaith, ar gyfer yr adegau pan mae'n teimlo fel y gallai pethau fy llethu. Does dim rhaid i fi boeni na fydda i'n gallu ymdopi pan fyddaf i yna ragor, a dyma oedd wedi fy atal rhag mynd mewn. Rwy'n teimlo fy mod i'n gallu ymdopi unwaith eto."

Astudiaeth achos

"Chwalodd ein byd ni pan gafodd fy merch ei threisio gan yr un person a ddylai fod wedi ei hamddiffyn hi. Felly rydw i mor ddiolchgar am y gefnogaeth a dderbyniais gennych chi. Dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi ei wneud os na fyddech chi wedi bod yna i'n helpu ni gyda llawer o'r pethau roeddwn i'n eu hwynebu'r amser hwnnw, yn enwedig gyda fy sefyllfa tai. Rydw i wir yn credu heboch chi y bydden ni wedi colli ein cartref hefyd. Roedd yn hunllef ei fod ef ar ein cytundeb tenantiaeth, a doeddwn i erioed yn meddwl y byddwn i byth yn gallu bod yn unig denant, doedd gen i ddim syniad beth roeddwn i'n ei wneud. Allaf i ddim dweud wrthoch chi pa mor fodlon ydyn ni, roedd hwn yn bryder sylweddol i fi, ac roedd yn cael effaith ar fy merch, er i fi geisio ei guddio rhagddi, roedd hi'n gwybod ac roedd hynny'n achosi gofid mawr i fi. Ond nawr rydyn ni'n iawn, rydyn ni'n setlo; fe wnaethoch chi i ni deimlo'n ddiogel eto."

New Pathways
Life beyond sexual violence

# SARC Aberystwyth

## Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

Agorwyd Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) newydd ym mis Hydref.

Daeth partneriaid ynghyd wythnos cyn yr agoriad swyddogol ar gyfer diwrnod agored arbennig i arddangos y cymorth arbenigol y bydd yn ei darparu i ddioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol ledled ardal Dyfed-Powys.

Adeiladwyd y ganolfan gan ddefnyddio cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn cais llwyddiannus gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sydd hefyd wedi goruchwylio’r broses o ddatblygu’r cyfleuster newydd.

Mae’r gwasanaethau a ddarperir o’r ganolfan yn cael eu hariannu ar y cyd gan bartneriaid y GIG, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a’r heddlu.

Mae’n rhan o ddull partneriaeth ehangach rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol, gwasanaethau iechyd a sefydliadau’r trydydd sector, gyda’r nod o sicrhau bod y rheini yr effeithir arnynt gan drais rhywiol yn cael y gofal, y cymorth a’r arweiniad y mae eu hangen arnynt.

Bydd y ganolfan yn codi ymwybyddiaeth o’r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr, ac yn darparu amgylchedd diogel a chyfrinachol lle gall pobl gael mynediad at ofal meddygol, archwiliad fforensig, cwnsela ac eiriolaeth barhaus.




Mae’r buddsoddiad hwn hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y comisiynydd i roi dioddefwyr a goroeswyr wrth wraidd blaenoriaethau [Cynllun yr Heddlu a Throseddu 2025–2029], gan sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed, a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

https://www.newpathways.org.uk
enquiries@newpathways.org.uk
01685 379 310



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Y Drenewydd

## Canolfan Cymorth Cymunedol Ymosodiadau Rhywiol

Yn unol â rhaglen Gwasanaethau Ymosodiad Rhywiol Cymru, mae'r Drenewydd yn gweithredu fel un o'r canolfannau sy'n tanategu'r model, gan ddarparu gwasanaethau cymorth cymunedol i ddioddefwyr trais rhywiol.

Diolch i grant gan Lywodraeth Cymru, mae canolfan y Drenewydd hefyd wedi ei hadnewyddu, gan ddarparu lleoliad ar gyfer dioddefwyr sy'n wybodus am drawma, ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r dyluniad yn niwtral o ran rhywedd ac oedran, ac yn darparu mynediad i bobl ag anabledd a lleoliadau sy'n cynorthwyo'r rheini â niwrowahaniaeth.

Mae ystafell deulu wedi ei chreu i gynnal plant a phobl ifanc yn benodol, gan ddarparu therapi chwarae pan fo'n briodol.

Mae hygyrchedd gwasanaethau ar y safle hefyd wedi gwella, gyda gweithiwr argyfwng ar ddyletswydd i gynorthwyo unrhyw ddioddefwr sy'n bresennol.



Mae'r buddsoddiad hwn hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y comisiynydd i roi dioddefwyr a goroeswyr wrth wraidd blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu 2025–2029, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Athreuliad cam-drin domestig

Cynhaliwyd gweithdy athreuliad dioddefwyr ym mis Mawrth 2026.

Cydlynwyd hyn gan SCHTh ar ôl i gyfarfod y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol ym mis Tachwedd nodi, yn chwarter cyntaf 2025–2026, o'r holl achosion a stopiwyd ledled Cymru, fod 3.5% ohonynt oherwydd athreuliad dioddefwyr. Yn ardal Dyfed-Powys roedd hyn yn cyfrif am 2.7% yn y Llysoedd Ynadon a 4.7% yn Llysoedd y Goron. Roedd angen darn o waith cydweithredol i ganolbwyntio ar y maes hwn.

Cynhaliwyd y gweithdy gan HDP a Gwasanaeth Erlyn y Goron, a chafwyd presenoldeb da gan gynrychiolwyr o'r rheini a grybwyllwyd uchod a

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), GLlTEF, SCHTh, a gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a gomisiynwyd.

Canolbwyntiodd y gweithdy ar y canlynol:

- Archwiliad dwfn – mapio taith y dioddefwr o'r adroddiad i'r euogfarn. Pwy sy'n gwneud beth ar ba gam, ac a ydyw'n effeithiol? Nodi unrhyw fylchau.
- Mesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr – safleoedd tystiolaeth o bell, gan sicrhau eu bod yn y lleoliadau cywir a chodi ymwybyddiaeth amdanynt.
- Erlyniadau a arweinir gan dystiolaeth.

Athreuliad yw 'colli' neu ollwng achosion wrth iddynt symud drwy'r system cyfiawnder troseddol.

Roedd yr adborth o'r gweithdy yn gadarnhaol, ac roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod rhagor o gamau y gellir eu cymryd i wella profiad dioddefwyr.

Mae cynllun gweithredu 19 pwynt wedi ei ddatblygu i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae hyn yn cynnwys ymateb cydweithredol gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a gofal tystion. Bydd gweithdai pellach yn cael eu trefnu maes o law er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## Prosiect Adeiladu Ffeiliau

Yn 2025, buddsoddodd y CHTh yn Adran Cyfiawnder Troseddol HDP i ddarparu'r capasiti i wella ei phrosesau adeiladu ffeiliau.

Arweiniodd y buddsoddiad hwn at weithredu prosiect adeiladu ffeiliau.
Nod y prosiect adeiladu ffeiliau yw defnyddio'r Uned Dilyniant Achosion o fewn yr Adran Cyfiawnder Troseddol i ymgymryd ag elfennau allweddol o'r broses adeiladu ffeiliau. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau'r amserlen datgelu, golygu gwybodaeth sensitif, ac unrhyw gamau gweithredu addas eraill. Mae dadansoddiad o'r model gweithredu presennol yn nodi'n glir bod cyfran uchel o ffeiliau a gyflwynir gan swyddogion yn cael eu dychwelyd oherwydd gwallau datgelu, gwallau golygu neu heb eu cyflwyno gydag argraffiadau o gofnodion neu ddata Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

Lansiwyd y prosiect ar 23 Medi 2025 gyda cham 1 a oedd yn cynnwys pob achos o gam-drin domestig.

Mae'r canlyniadau o gam 1 wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y dyddiau o gyflwyno'r ffeil i'r Uned Dilyniant Achosion a'i drosglwyddo i Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae hyn wedi gwella o 244 diwrnod cyn y cam, gydag un wedi ei leihau i ddim ond 60 diwrnod ar ôl y lansiad.
Mae data NPCC yn dangos gostyngiad yn nifer cynlluniau gweithredu Gwasanaeth Erlyn y Goron sydd wedi dod i law'r heddlu, o 57% ym mis Medi 2025 i 34% ym mis Tachwedd 2025.

Yn dilyn llwyddiant hyn, bydd y cam canlynol yn cael ei weithredu ar 2 Ebrill 2026, a fydd yn gweld yr Uned Dilyniant Achosion yn cymryd yr holl ffeiliau achos sy'n weddill, ac eithrio achosion remandio a RASSO. Mae hyn yn cynnwys pob trosedd cyn cyhuddo – achosion o gam-drin domestig ac achosion nad ydynt yn gam-drin domestig.

## Cynllun Peilot yr Awdurdod Cyhuddo

Mae HDP yn gweithio ar y cyd â'r NPCC, y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gynllun peilot awdurdod cyhuddo, sy'n anelu at ddychwelyd penderfyniadau awdurdod cyhuddo cam-drin domestig (ple euog disgwyliedig) yn ôl i'r heddlu.
Mae HDP yn un o chwe heddlu'r cynllun peilot. Yr heddluoedd eraill yw Gwent, De Cymru, Gogledd Cymru, Swydd Gaer a Glannau Mersi.
Mae'r fenter yn rhan o ymdrech ehangach i symleiddio'r broses gyhuddo, lleihau oedi a gwella canlyniadau i ddioddefwyr, yn enwedig achosion o gam-drin domestig. Lansiwyd hwn hefyd ar 23 Medi 2025.
Nod y prosiect hwn yw fel a ganlyn:
- Mesurau diogelu ar unwaith
- Mynediad cyflymach at orchmynion amddiffynnol
- Llai o athreuliad gan ddioddefwyr
- Tarfu ar gylchoedd ymddygiad camdriniol
- Mwy o ymddiriedaeth a hyder yn y system gyfiawnder

Mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydweithio'n dda ar hyn. Ar hyn o bryd mae'r niferoedd yn isel, felly bydd y prosiect yn parhau i gael ei fonitro er mwyn gwerthuso llwyddiant.

## Proses Braenaru Cam-drin Domestig

Fel rhan o ymrwymiad HDP, lansiwyd menter newydd ym mis Mawrth 2026 o dan y Cynllun Cyfiawnder ar y Cyd ar Gam-drin Domestig, mewn ymdrech i wella'r gwasanaeth cyffredinol i ddioddefwyr a thystion troseddau.

Gelwir hyn yn 'braenaru cam-drin domestig'.

Nod y broses hon yw gwella amseroldeb yr ymchwiliad a'r cyhuddiad mewn achosion o gam-drin domestig. Bydd y broses yn cynnwys gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddarparu penderfyniadau cyhuddo mewn modd mwy amserol.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Llysoedd sy'n canolbwyntio ar blant

Lansiwyd gwasanaeth newydd ar 1 Mawrth 2025 gyda'r nod o wella profiad dioddefwyr a phlant yn y llys teulu. Mae adborth a ddaeth i law gan y CHTh a'r bwrdd cyfiawnder troseddol lleol wedi dangos bod dioddefwyr yn cael eu haildrawmateiddio gan y system deulu wrthwynebol flaenorol. Darperir y gwasanaeth mewn llysoedd ledled De, Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac fe'i cynhelir gan Safer Merthyr Tydfil a Thrive Women's Aid.



Atgyfeiriwyd 123 o achosion rhwng cychwyn y gwasanaeth a diwedd mis Medi 2025. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gysylltu â 96% o atgyfeiriadau, ac mae 84% o'r rheini y cysylltwyd â nhw wedi cydsynio i asesiad a chreu adroddiad ar gyfer y llys.

Mae SCHTh yn parhau i fonitro'r gwasanaeth hwn ar ran y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol, gyda chynrychiolaeth ar grŵp Monitro Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant Canolbarth a Gorllewin Cymru.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Dyletswydd Trais Difrifol


Cyflwynwyd y Ddyletswydd Trais Difrifol gan Lywodraeth y DU drwy Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022, i gychwyn ar 31 Ionawr 2023.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydweithio i atal a lleihau trais difrifol.

Dyrannodd y Swyddfa Gartref gyllid i bob ardal heddlu i weithredu'r gwaith sy'n ofynnol i bartneriaid gyflawni rhwymedigaethau craidd y ddyletswydd, ac i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu strategaethau lleihau trais difrifol.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau y bydd cyllid pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer 2026–2027 ar yr un gwerth â'r ddwy flynedd ariannol flaenorol (£188,696.96).
Bydd y cyllid hwn, fel yn y blynyddoedd blaenorol, yn cael ei rannu rhwng costau llafur a chostau nad ydynt yn gostau llafur.

Bu'r gweithgarwch yn ystod 2025–2026 yn canolbwyntio ar gryfhau dulliau ymyrryd yn gynnar, gwella cydlynu amlasiantaethol, a pharhau i ymgorffori gwaith atal sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc.






Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Dyletswydd Trais Difrifol

**Ymyriadau**

| Sefydliad | Ymyriad | Thema | Lleoliad | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion County Council | **Tîm Nos Aber** | **SVOC** (Trais difrifol a throseddu trefnedig) | **Aberystwyth** | Mae partneriaeth, sy'n cynnwys Prifysgol Aberystwyth, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth / Undeb Aber, gwasanaeth St John Ambulance a Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed yn darparu gwasanaeth cymorth ac ymateb pwrpasol yn y nos i ymateb i niwed i fyfyrwyr (a phreswylwyr) a lleihau'r risg o niwed iddynt.<br>Mae'r model yn cael ei gydnabod am yr effaith y mae'n ei chael. Wrth groesawu myfyrwyr newydd i Aberystwyth, mae'n darparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth defnyddiol yn ystod y nosweithiau cyntaf hynny pan fydd myfyrwyr yn llywio'r cyfnod o bontio i addysg uwch ac yn byw'n annibynnol.<br>Mae gwaith y bartneriaeth wedi cael effaith, gyda thystiolaeth yn dangos gostyngiad yn nifer y derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys oherwydd ymyrryd uniongyrchol. |
| DYFED-POWYS HEDDLU POLICE | **Pensetiau realiti rhithwir INTACT** | **Ieuenctid a SVOC** | **Rhanbarthol** | Sesiynau a gynhelir gyda phobl ifanc i dynnu sylw at fygythiadau ar-lein, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, llinellau cyffuriau a chamfanteisio troseddol, gyda'r gobaith o ddarparu ymateb mwy cydweithredol i'r bygythiadau o drais difrifol a throseddu trefnedig.<br>Gyda'r defnydd o'r pensetiau realiti rhithwir, mae tîm INTACT yn addysgu pobl ifanc ac asiantaethau partner, cyfleusterau ar ôl ysgol, gwasanaethau atal ar gyfer pobl ifanc, a gofalwyr. Mae gan bob pecyn sydd wedi ei gynnwys yn y penset opsiwn ar gyfer pob sector, sy'n golygu eu bod yn gwbl gynhwysol. |
| SWANSEA CITY AFC | **Prosiect Premier League Kicks** | **Ieuenctid a SVOC** | **Rhanbarthol** | Yn darparu hyfforddiant pêl-droed a sgiliau bywyd i blant 8–18 oed mewn ardaloedd a nodwyd fel rhai sydd ag amddifadedd uchel, ardaloedd sydd â risg uchel o ran troseddu ac erledigaeth. Cynhelir sesiynau am ddim gyda'r nos (adegau prysur ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol / trais) mewn lleoliadau lleol hygyrch gydag ethos 'troi i fyny a chwarae' cynhwysol a chroesawgar (gan leihau stigma). Mae cystadlaethau a digwyddiadau wedi eu cynnwys; gemau Premier League Kicks ac ymweliadau â stadia. Yn ogystal â phêl-droed, mae gweithdai ac ymyriadau pwrpasol yn codi ymwybyddiaeth ac yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thrais a niwed difrifol. |
| COMMUNITY INTEREST CARE | **Prosiect Ieuenctid Sir Benfro** | **Ieuenctid a SVOC** | **Sir Benfro** | Rhaglen atal trais ieuenctid dan arweiniad sefydliad sy'n cydweithio'n agos ag unigolion o gefndiroedd ethnig a/neu leiafrifol.<br>Cynhelir trafodaethau pwrpasol â phobl ifanc 11–18 oed ar bynciau fel troseddau cyllyll, pwysau gan gyfoedion, aros yn ddiogel ar-lein, a chydberthnasau iach yn ystod sesiynau clybiau ieuenctid wythnosol.<br>Mae gan gyfranogwyr hŷn gyfle i ddod yn arweinwyr ieuenctid ac yn fodelau rôl, gan gael hyfforddiant achredig i arwain trafodaethau, cynllunio gweithgareddau, a chynrychioli eu cymunedau. |

# Dyletswydd Trais Difrifol

## Ymyriadau

| Sefydliad | Ymyriad | Thema | Lleoliad | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| | Pethau gwell i'w gwneud | Ieuenctid a SVOC | Aberaeron | Celf Aeron Arts yw'r unig ddarparwr gweithdai cerddoriaeth a chelfyddydau creadigol am ddim i bobl ifan ardal wledig hon. Gall plant 11–17 oed yng Ngheredigion gael mynediad at y gwasanaeth hwn am ddim. Mae'r sesiynau ga ar agor i bawb, ac maent yn parhau i dargedu'r rheini sydd fwyaf agored i niwed neu mewn perygl. Mae g mwyafrif sydd wedi cymryd rhan hyd yn hyn broblemau iechyd meddwl; maent dan anfantais, wedi ymdo neu'n niwroamrywiol; mae nifer wedi bod yn y system ofal neu'n 'blant sy'n derbyn gofal', yn hysbys i'r h wedi cael eu cyfeirio gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae Celf Aeron Arts yn gweithio gyda sefydliadau statudol a thrydydd sector sy'n darparu cymorth i bobl agored i niwed, gan hyrwyddo eu gwaith fel y gall y rheini sydd fwyaf mewn angen ymuno â'r sesiynau. |
| | Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin | Ieuenctid a SVOC | Caerfyrddin | Mae Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin yn cynnig darpariaeth galw heibio gynhwysfawr am ddim i bobl ifanc gan weithredu bum niwrnod yr wythnos fel ymyriad ataliol. Mae staff cymwys y prosiect yn darparu ymyriadau pwrpasol sy'n mynd i'r afael ag amryfal ffactorau risg gynnwys profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, atal camddefnyddio sylweddau, a chymorth llesiant. M ymyriad yn ymgorffori addysg am gydberthnasau iach, cydsyniad, parch ac atal trais trwy gydberthnasau dibynadwy a adeiladwyd rhwng gweithwyr ieuenctid a chyfranogwyr. |
| | Cwrt Cruyff arbenigol | Ieuenctid a SVOC | Rhydaman | Wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth â Sefydliad Johan Cruyff mae'r gofod cynhwysol hwn yn gwneud y<br>– Cyflwyno addysg gorfforol a chwaraeon strwythuredig i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (AD Nghanolfan Amanwy.<br>– Hyfforddi Pencampwyr Cruyff—a ddewisir o blith disgyblion prif ffrwd â thariff uchel sydd ag anghenion ymddygiadol—i gyd-arwain gweithgaredd gyda dysgwyr ADY.<br>– Gweithredu fel canolfan gymunedol hygyrch am ddim gyda'r nos, ar benwythnosau, ac yn ystod y gwyl<br>– Cynnal digwyddiadau chwaraeon rhwng ysgolion / digwyddiadau cynradd yn rhanbarthol sy'n gyfeillgar ddysgwyr ag ADY.<br>Mae'r fenter hon yn rhan o strategaeth newid ymddygiad: defnyddio chwaraeon, arweinyddiaeth, a chyfri strwythuredig i ailgyfeirio disgyblion risg uchel tuag at rolau cadarnhaol a arweinir gan gymheiriaid. Mae' hyn—sydd yn aml mewn perygl o ymddieithrio a throseddu yn y dyfodol—yn cael hyfforddiant a mentora achredig i feithrin sgiliau, empathi a hunan-werth. Bydd eu cydweithrediad agos â disgyblion ADY yn m rheoleiddio emosiynau, a gwydnwch hirdymor. |
| | Canolfan Llanbedr Pont Steffan | Ieuenctid a SVOC | Llanbedr Pont Steffan | Mae partneriaeth Dyfodol Ni wedi ymrwymo i ddarparu rhwydwaith o ganolfannau cymorth cynnar ac ata weithredu fel un pwynt mynediad mewn cymunedau. Mae model y Ganolfan Cymorth Cynnar ac Atal yn u ac wrth wraidd hwn mae'r gallu i gynnal darpariaeth wirioneddol gyfannol, gynhwysfawr, wedi ei chynllun chyflwyno gan bobl ifanc, ar gyfer pobl ifanc. Mae'n cynnig cymorth ac ymyriad; o gymorth ymarferol i d gwybodaeth, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb ac sydd ar gael ar adegau sy'n |

# Dyletswydd Trais Difrifol

**Ymyriadau**

| Sefydliad | Ymyriad | Thema | Lleoliad | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| THE NELSON TRUST | **Ymyriadau therapiwtig** | **VAWG a SPOC** (Trais yn erbyn menywod a merched a'r pwynt cyswllt sengl) | **Rhanbarthol** | Ymyriadau grŵp therapiwtig a fydd yn grymuso menywod ledled ardal Dyfed-Powys i fynd i'r afael â'u profiadau o drais difrifol, fel dioddefwyr a throseddwyr mewn rhai achosion. Mae hyn yn cynnwys:<br>– Newid Patrymau: rhaglen dair wythnos sy'n galluogi menywod sydd wedi ymdrin â cham-drin domestig i dorri cylch y cam-drin a phatrymau ymddygiad, sy'n arwain at ddychwelyd at bartner camdriniol neu fynd i berthynas gamdriniol arall.<br>– Y Tu Hwnt i Ddicter: rhaglen fodiwlaidd pum wythnos sy'n mynd i'r afael â phrofiadau menywod o drais fel troseddwr a/neu ddioddefwr. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo menywod i reoli dicter mewn ffordd wahanol, a rhoi'r dulliau iddynt wneud hynny.<br>Mae'r rheini sy'n ymgymryd â'r cwrs yn cael asesiad cyflwyniadol cyn y cwrs gyda hwyluswyr y rhaglen, sy'n asesu addasrwydd yn erbyn meini prawf y rhaglen ac yn rhoi unrhyw fesurau ychwanegol ar waith i gynorthwyo anghenion unigol. Mae'r gweithwyr allweddol sy'n hwyluso'r grwpiau yn gyfrifol am gofnodi a monitro cynnydd pob unigolyn ar y cwrs trwy ddefnyddio'r system rheoli achosion fewnol. |
| DYFED-POWYS HEDDLU POLICE | **Pecynnau atal troseddau cam-drin domestig** | **VAWG** | **Rhanbarthol** | Prynu offer atal troseddu i wella ymateb HDP i ddioddefwyr cam-drin domestig. Cyflenwir pecynnau atal troseddu i ddioddefwyr agored i niwed gyda'r nod o atal troseddu a diogelu'r dioddefwyr yn eu cartref. Bydd pob pecyn yn cynnwys *Essentials Window Vibration Alarm, Defender Ultra Slim Door Wedge Alarm – SBD Defender Door Handle Alarm, Defender Door Brace,* bag cynfas. Amcangyfrifir y bydd hyn yn darparu 35 o becynnau i'w defnyddio. |
| Our Voice Our Journey – Reimagining Society Together | **Yo Bro** | **VAWG ac Ieuenctid** | **Sir Benfro** | Drwy ymgyrch feiddgar, a arweinir gan bobl ifanc, mae YO BRO yn ysgogi bechgyn a dynion ifanc ledled Sir Benfro i archwilio gwrywdod iach, herio agweddau ac ymddygiadau niweidiol, ac ysbrydoli newid a arweinir gan gymheiriaid.<br>Mae'r prosiect:<br>– Yn ennyn dynion ifanc i herio casineb at fenywod, trais ar sail rhywedd, a thrais ieuenctid, gan rymuso bechgyn i wynebu normau niweidiol, myfyrio ar eu credoau eu hunain, a dod yn gynghreiriaid amlwg a brwd wrth atal cam-drin.<br>– Yn hyrwyddo diwylliannau cymheiriaid diogel a pharchus mewn ysgolion a lleoliadau ieuenctid trwy annog bechgyn i fodelu ymddygiadau cadarnhaol, tynnu sylw at agweddau niweidiol, a chefnogi llesiant emosiynol ei gilydd.<br>– Yn adeiladu'r sylfeini ar gyfer gwaith cefnogi cynaliadwy ar gyfer bechgyn ar draws y rhanbarth, trwy hyfforddi oedolion dibynadwy i redeg grwpiau parhaus a rhwydweithiau mentora. |

# Dyletswydd Trais Difrifol

## Ymyriadau

| Sefydliad | Ymyriad | Thema | Lleoliad | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| Physical Empowerment – You Are Worth Protecting (Community Interest Company) | Cyrsiau cam-drin / trais domestig | VAWG | Caerfyrddin a Hwlffordd | Yn cefnogi menywod sydd wedi goroesi cam-drin domestig a/neu drais rhywiol trwy eu cynorthwyo i rymuso eu hunain a chael eu bywydau yn ôl ar y trywydd iawn. Gwneir hyn drwy gynnig model hyfforddi cynhwysfawr sy'n caniatáu iddynt weithio trwy eu trawma corfforol a meddyliol gyda'i gilydd. Wedi ei gyflawni drwy greu mannau diogel i ddarparu ymyriadau effeithiol a manwl, gan gwmpasu sgiliau hunanamddiffyn corfforol, gwydnwch emosiynol, a strategaethau goroesi meddyliol. Mae hwn yn ddull adsefydlu effeithiol mewn trawma, sy'n galluogi gwelliannau iechyd a llesiant parhaol i'r menywod. |
| colegsirgâr colegceredigion | Ein Stryd Ni Nawr | VAWG ac Ieuenctid | Sir Gâr a Cheredigion | Yn benodol i anghenion amrywiol iawn y sector addysg bellach. Yn cynnwys:<br>1. Hyfforddiant staff wedi ei deilwra ar gyfer timau bugeiliol a thiwtoriaid dosbarth.<br>2. Rhwydwaith i gynorthwyo staff y coleg drwy'r trafodaethau a'r ymyriadau.<br>3. Darparu adnoddau addysg bellach penodol, gan gynnwys cynlluniau gwersi parod. |
| montgomeryshire family crisis centre – Celebrating 45 years 1980–2025 | Cymorthfeydd Tyfu | VAWG ac Ieuenctid | Gogledd Powys | Yn cynnal gwaith perthnasoedd iach gyda phobl ifanc ac yn cyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth / hyfforddi mewn lleoliadau addysgol a sefydliadau ieuenctid.<br>Yn cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth yn y coleg a'r ysgolion uwchradd lleol, sy'n trafod pynciau yn cynnwys perthnasoedd iach, cam-drin domestig, diogelwch ar-lein a chydsyniad.<br>Mae gan y myfyrwyr sy'n bresennol yn y sesiynau hyn, yr effeithiwyd arnynt gan rai o'r pynciau a drafodir, gyfle i siarad â gweithiwr cymorth yn gyfrinachol wedyn. |
| CarmDAS – Gwasanaethau Cam-drin Domestig Carmarthen Domestic Abuse Services – mae pob cam yn gynnydd – every step is progress | Prosiect Cymorth Cynnar | VAWG ac Ieuenctid | Sir Gâr | Nodi a chynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad treisgar, ymosodol neu niweidiol oherwydd eu bod wedi ymdrin â cham-drin domestig. Wedi ei gyflwyno gan ymarferwyr plant a phobl ifanc profiadol, gyda phwyslais cryf ar sgrinio pobl ifanc am drais a cham-drin, yn enwedig tuag at eu rhieni, gofalwyr, neu aelodau o'r teulu. Yn dibynnu ar ganlyniad yr asesiad, cynigir pecyn cymorth wedi ei deilwra i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. |



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel




Mae Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn cydnabod cyflawniadau rhagorol unigolion, timau a phartneriaethau sy'n gweithio i wneud cymunedau ledled Cymru yn fwy diogel.

Cynhaliwyd seremoni Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel 2025 ddydd Iau 27 Tachwedd ym Mhrifysgol Aberystwyth gan y newyddiadurwr a darlledwr BBC, John-Paul Davies.
Roedd 253 o enwebiadau ar gyfer mentrau ar draws 16 categori posibl. Yn beirniadu yr oedd panel yn cynnwys pedwar cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru, Uned Gyswllt yr Heddlu, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Dyfarnwyd 34 o wobrau gan y beirniaid, yn cynnwys 15 o enillwyr categori, 11 o wobrau categori canmoliaeth uchel, 2 wobr cyfraniad unigol, 1 wobr tîm, a 2 wobr partneriaeth, yn ogystal â 2 enillydd cyffredinol.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn am y gwobrau ac enillwyr categorïau eraill yn ardal Dyfed-Powys yma.



Rhwydwaith CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES Network

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel

## Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

Mae VAWDASV yn ymgorffori trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig, treisio a thrais rhywiol, aflonyddu rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail anrhydedd, priodas dan orfod, stelcio, masnachu pobl, a mathau eraill o drais. Gall pob rhywedd fod yn ddioddefwyr ac yn droseddwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## Enillydd y categori: Gwasanaeth eiriolaeth stelcio cenedlaethol Paladin a Heddlu Dyfed-Powys

Mae Paladin wedi recriwtio eiriolwyr achosion stelcio annibynnol, sy'n ymroddedig i ddarparu gwasanaeth cymorth arbenigol ledled ardal Dyfed-Powys, sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda dioddefwyr stelcio, gan eu cynorthwyo drwy eu trawma ac unrhyw achosion cyfreithiol dilynol. Maent yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod dioddefwyr trosedd gymhleth stelcio yn cael y cymorth arbenigol y mae ei angen arnynt, nad oedd ar waith yn yr ardal hon cyn cyflwyno'r gwasanaeth hwn.

Mae Paladin yn cynnal sesiynau hyfforddi helaeth i swyddogion heddlu a darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o ymddygiadau stelcio.

Mae hyn wedi arwain yn uniongyrchol at gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan ddarparwyr gwasanaeth a gwybodaeth well yn yr heddlu, gan gynnwys gydag aelodau'r tîm gwasanaeth cyfreithiol sy'n gyfrifol am orchmynion diogelu rhag stelcio.





Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner


# BLAENORIAETH 2 – POBL SY'N TROSEDDU



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Profi am gyffuriau wrth arestio (DToA)

- Rhoddwyd DToA ar waith yn 2003, ond ychydig iawn o heddluoedd a fabwysiadodd y broses.
- Ei nod yw nodi unigolion y mae eu gweithgarwch troseddol wedi ei achosi gan ddefnyddio cyffuriau Dosbarth A, a
- chynnig triniaeth a chymorth, a dargyfeirio at wasanaethau.




Cerrig milltir allweddol ac amserlen Heddlu Dyfed-Powys

| | |
|---|---|
| Hydref 2022 | • HDP yn adrodd am DToA i'r Swyddfa Gartref |
| Ionawr 2024 | • Pwyslais newydd ar DToA a'r ymgyrch brofi ar draws yr heddlu |
| Mai 2024 | • Cyflwyno swyddog DToA a threialu mentrau llai ac arloesol |
| Hydref 2024 | • Cyflwyniad i brofion cudd-wybodaeth |
| Rhagfyr 2024 | • Cyflwyno gwasanaeth cymorth cyffuriau ac alcohol sydd wedi ei ymgorffori yn y ddalfa |



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Profi am gyffuriau wrth arestio (DToA)




| | Jan 25 | Feb 25 | March 25 | April 25 | May 25 | June 25 | July 25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dafen. | 25 | 29 | 10 | 20 | 23 | 28 | 38 |
| Haverfordwest. | 23 | 26 | 20 | 21 | 17 | 24 | 16 |
| Powys. | 11 | 14 | 9 | 8 | 17 | 6 | 7 |
| Aberystywyth. | 9 | 8 | 6 | 13 | 5 | 4 | 13 |
| Volume of Positive tests | 48 | 46 | 29 | 36 | 42 | 35 | 53 |
| % of Positve tests | 71 | 60 | 64 | 58 | 68 | 56 | 71 |



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Profi am gyffuriau wrth arestio (DToA)





**PWYNTIAU CADARNHAOL**

- Cynorthwyo'r rheini sy'n troseddu oherwydd eu bod yn defnyddio cyffuriau
- Lleihau cyfraddau troseddu a nifer dioddefwyr troseddau dro ar ôl tro
- Pwysigrwydd nodi'r bobl gywir i'w cynorthwyo (profion cudd-wybodaeth)
- Newidiadau i brofion troseddau sbardun – bydd ychwanegu troseddau trais domestig yn gam cadarnhaol ymlaen. Mae HDP yn cymryd rhan mewn cynllun peilot gan y Swyddfa Gartref ar hyn o bryd, sy'n adrodd ar DToA ag achosion o droseddau trais domestig.
- Gweithio mewn partneriaeth yn well – ymgorffori gwasanaethau cymorth yn y ddalfa
- Angen monitro a chymorth parhaus

**EFFAITH AR WASANAETHAU CYMORTH**

- Cynnydd yn nifer y profion yn effeithio ar y galw am wasanaethau
- Gwelir yr effeithiau hyn yn HDP – cydweithio i wella arferion, gan gynnwys asesiadau o bell



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# Dargyfeirio cyffuriau



Un o brif nodau strategaeth gyffuriau HDP (2025–2029) yw dargyfeirio defnyddwyr cyffuriau at driniaeth – dull iechyd y cyhoedd. Mae swyddogion bellach yn atgyfeirio oedolion drwy ddatrysiad cymunedol oedolion (ACR) am unrhyw 'feddiant syml o gyffuriau' nifer ddiderfyn o weithiau. Y bwriad yw cynnig cyfleoedd parhaus i unigolion sy'n gaeth i gyffuriau geisio cymorth a mynd i'r afael â gwraidd eu dibyniaeth.
Bydd cyhoeddi ACR yn sbarduno atgyfeiriad awtomataidd at wasanaethau.

Mae darparu triniaeth ar-lein Breaking Free wedi ei chaffael i ategu'r cynigion triniaeth.

Mae'r amcanion ar gyfer y dull hwn fel a ganlyn:

1. Dargyfeirio a thriniaeth – Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu cyfeirio at driniaeth ystyrlon – Lleihau'r galw am gyffuriau er mwyn lleihau apêl y cyflenwad yn ein cymunedau.
2. Cynyddu gallu swyddogion yr heddlu i fod yn fwy rhagweithiol, gan dargedu gwerthwyr cyffuriau a/neu flaenoriaethau eraill yr heddlu.
3. Lleihau oedi o ran cyfiawnder troseddol – Llai o ymchwiliadau masnachu cyffuriau 'agored' – Cyflymu erlyniadau a chanlyniadau cyfiawnder troseddol i'r troseddwyr mwyaf niweidiol.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Dargyfeirio cyffuriau

<u>Llwyddiant cyffredinol a chanlyniadau'r prosiect hyd yn hyn</u>

- Cyfanswm o **1,743** o atgyfeiriadau hyd yn hyn, ers cychwyn y prosiect ym mis Hydref 2023 (hyd at Chwefror 2026) – tua 690 y flwyddyn, 60–70 y mis
- **11** atgyfeiriad y mis ar gyfartaledd ym Mhowys – Cyfradd ymgysylltu misol gyfartalog = **75%**
- **52** o atgyfeiriadau y mis ar gyfartaledd yn Nyfed – Cyfradd ymgysylltu misol gyfartalog = **25%**
- Llwybr triniaeth ddeuol – Grŵp CODI (a elwid gynt yn 'POBL DPDS') gyda **63** o atgyfeiriadau y mis ar gyfartaledd – Cyfradd ymgysylltu misol gyfartalog = **76%**

<u>Rhaglen ar-lein Breaking Free</u>

- Cyfradd cadw o **93%** (**220** o unigolion) (cwblhau pob modiwl yn y rhaglen)
- Gostyngiadau mesuradwy yn y defnydd o sylweddau – data hunan-ddatganedig, dim canlyniad, dim rhwymedigaeth i'w gwblhau, a dim rheswm i fod yn anwireddus
- **73%** (**172** o unigolion) yn datgan eu bod yn parhau i ymatal
- **46%** (**109** o unigolion) yn nodi gwelliant o ran eu dibyniaeth ar sylweddau
- **50%** (**118** o unigolion) yn datgan gwelliant mewn iechyd meddwl
- Yn hyblyg i bartneriaid ei ddefnyddio y tu allan i'r prosiect hwn – tystiolaeth o hyn yn digwydd
- Mae trigolion nad ydynt yn byw yn ardal Dyfed-Powys (anghymwys o'r blaen) bellach yn cofrestru

Cynhaliwyd ymchwil ar gyfer y cyfnod rhwng 23 Hydref a 25 Mehefin, er mwyn deall natur a nifer yr atgyfeiriadau ACR mynych. Roedd y penawdau fel a ganlyn:

- Dros y cyfnod **rhoddwyd 1,874 ACR**
- Rhoddwyd y 1,874 ACR i **1,562** o unigolion penodol
- Mae 1,395 o unigolion wedi cael un ACR yn unig yn ystod y cyfnod hwn – cafodd 89% o <u>unigolion</u> un ACR
- Mae 166 o unigolion wedi cael **mwy nag un ACR** yn ystod y cyfnod hwn, sef 11%

Dros gyfnod y dull gweithredu (Hydref 2023–Chwefror 2026) bu arbediad o ryw **8,715** o oriau plismona (**351** diwrnod) a roddodd gyfle i ganolbwyntio ar flaenoriaethau eraill
(neu gyfran sylweddol fawr os yw newidynnau'n negyddu – ailadroddus / eisoes ar agor / manylion annigonol i gysylltu ar agor ac ati)
Tynnu'r 12 diwrnod a gollwyd gan yr ymgysylltiadau 10 munud fesul dewis amgen ACR yn lle arestio



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Gwarediadau troseddau casineb y tu allan i'r llys

Mae troseddau casineb yn broblem gynyddol yng Nghymru a Lloegr, fel yr amlygwyd gan Fwletin Ystadegol Blynyddol y Swyddfa Gartref, ac mae'n adlewyrchu cynnydd o un flwyddyn i'r llall ers 2013 ac yn dangos yr angen i ddefnyddio ymyriadau newydd i ysgogi newid ymddygiad gwirioneddol mewn troseddwyr.
Yn hanesyddol, dim ond dau opsiwn oedd gan yr heddlu wrth ymdrin â throseddwyr troseddau casineb, sef cyhuddo a rhybuddio gydag awdurdod arolygydd.

Red Snapper
MANAGED SERVICES

Ynghyd â 17 o heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr, mae HDP wedi cael y cyfle i fod yn rhan o'r cynllun peilot cenedlaethol i ddatrys troseddau casineb y tu allan i'r llys, sy'n cael ei oruchwylio gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r NPCC.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae gan HDP gyfle nawr i lunio'r dyfodol o ran sut y mae troseddau casineb yn cael eu trin, a bod yn gyfrannwr allweddol yn y broses o ddefnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol ac addysgu unigolion i wneud dewisiadau bywyd gwell.

Mae gwarediadau y tu allan i'r llys yn hanfodol ar gyfer lleihau aildroseddu, lleddfu ôl-groniadau llys, a darparu cyfiawnder cyflymach, wedi ei deilwra ar gyfer troseddau lefel isel. Maent yn meithrin adsefydlu, yn caniatáu mewnbwn i ddioddefwyr, ac yn osgoi
stigmateiddio cofnodion troseddol ar gyfer troseddwyr tro cyntaf, gan arwain yn aml at ganlyniadau gwell nag erlyniad llys.

codi



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Gwarediadau troseddau casineb y tu allan i'r llys

O 1 Ebrill 2026 ymlaen, gellir dargyfeirio troseddwyr sydd wedi cyflawni troseddau casineb ar gyfer ymyriad arbenigol i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Gwneir hyn drwy rybuddiad amodol ynghyd ag atgyfeiriad i CODI (Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr Dyfed-Powys) er mwyn hwyluso'r ymyriad ynghyd ag asesiad cyfannol o anghenion y troseddwyr mewn ymgais i dorri'r cylch troseddu.

Red Snapper
MANAGED SERVICES

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Yn dilyn gwerthusiad gan CODI, bydd y troseddwr yn cael ei gyfeirio at Red Snapper, sef darparwr dargyfeirio achrededig a fydd yn darparu rhaglen dargyfeirio bwrpasol sydd wedi ei chynllunio'n benodol i dargedu troseddau casineb gyda system ymateb i droseddau casineb gwbl integredig.
Mae hyn yn cyfuno adnabod yn gynnar, blaenoriaethu, asesu, ymyriad pwrpasol, monitro risg wedi ei alluogi gan OSINT (gwybodaeth ffynhonnell agored), a rheoli achosion yn barhaus. Y dull cyfannol hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y DU.

codi



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Llety i droseddwyr / IOM

## Rheoli troseddwyr yn integredig

Mae tai yn cael eu cydnabod yn eang fel un o'r prif anghenion troseddogenig ymhlith troseddwyr.

Canolbwyntiodd Bwrdd Uwch-Reolwyr y Drefniadaeth Aml-asiantaethol er Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) ym mis Tachwedd ar lety, a chafwyd cyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru a HMPPS. Mae is-grŵp tai strategol yn cael ei sefydlu gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol a phennaeth yr Uned Cyflawni Prawf ar gyfer Dyfed-Powys, gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, i archwilio sut y gallant ddarparu gwasanaethau llety orau gan ddefnyddio cyllid Gwasanaeth Llety Cymunedol 3 (CAS3), prosiect tai IOM ac ati.

Bydd yr is-grŵp hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd cyfiawnder troseddol lleol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol o ran cynnydd, y camau nesaf, a chynigion yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei oruchwylio.

Mae Bwrdd Rheoli Troseddwyr yn Integredig Dyfed-Powys yn cyfrannu at Fwrdd Perfformiad, Cyflawni a Dadansoddi Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru, Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru, ac at y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru.

Cafodd Dyfed-Powys arolygiad gan HMPPS ym mis Mawrth 2026, a oedd yn cynnwys trefniadau llywodraethu, carfanau IOM, sgiliau a hyfforddiant, sicrhau ansawdd, a chost dadansoddi troseddau. Disgwylir cyhoeddi gradd yr arolygiad hwn ym mis Medi.

Roedd dyfyniadau gan bobl a enwir fel risg posib wedi eu cynnwys yn yr adborth:

*'Rhaid i mi ddweud fy mod i wedi elwa'n aruthrol ers bod dan ofal Swyddog IOM … mae ef (y swyddog IOM) wedi bod yn amhrisiadwy i mi … mae wedi bod yn gymorth na fyddwn i wedi ei gael yn unman arall – diolch'*

*' Rydw i wedi elwa'n aruthrol ar y cyswllt rheolaidd … yn ogystal â gallu sgwrsio am unrhyw beth sy'n codi. Mae hyn wedi helpu i gadw fy iechyd meddwl yn sefydlog … mae wedi fy helpu i ailintegreiddio'n ôl i'r gymuned'*



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# Cyflwyno Nalocson

Mae marwolaethau sy’n gysylltiedig â chyffuriau a marwolaethau sy’n gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon yn Nyfed-Powys yn parhau i ostwng. Mae hyn oherwydd y gwaith partneriaeth, yn enwedig gyda’r heddlu, a’r pwyslais ar Nalocson.

Adroddwyd am y farwolaeth gyntaf o nitasenau yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gyda chudd-wybodaeth yn dangos bod y cyffur wedi ei gymysgu â heroin.  Nid oes llinell gyflenwi uniongyrchol yn dod i mewn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ond dyma’r tro cyntaf i unrhyw docsicoleg ddod yn ôl lle nodwyd presenoldeb nitasenau. Mae cocên yn broblem enfawr ar hyn o bryd, gydag wyth marwolaeth eleni yn dangos cocên yn yr adroddiadau tocsicoleg.

O safbwynt bwrdd iechyd, mae grŵp gweithredu wedi ei sefydlu (gyda phresenoldeb yr heddlu) i ystyried hyn ac adolygu’r llwybrau triniaeth ar gyfer cocên.

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn pryderu ynghylch dargyfeirio meddyginiaeth ar bresgripsiwn, yn enwedig opiadau.  Maent yn gweithio gyda meddygon teulu, gofal sylfaenol a fferyllfeydd, ond nodwyd bod hon yn broblem ledled Cymru, ac nid yn Nyfed-Powys yn unig.

Mae asesiad o anghenion ar gyfer cyffuriau ac alcohol ar draws Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ei gynhyrchu, sy’n cynnwys yr holl ddata o ran triniaethau cyfredol, mathau o sylweddau, a data lefel uwch gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Arsyllfa, StatsCymru a’r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rhannwyd yr asesiad o anghenion hwn â’r bwrdd cyfiawnder troseddol lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth. Mae cynrychiolydd o’r bwrdd iechyd yn aelod o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys, ac yn mynd i gyfarfodydd i rannu gwybodaeth a gofyn am gymorth gan y sefydliadau sy’n rhan o’r bwrdd pan fo’n briodol.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# The Drive Partnership

The Drive Partnership

Threshold DAS A safe place for anyone affected by domestic abuse.

- Mae The Drive Partnership yn ymateb i gam-drin domestig sy’n ceisio lleihau nifer y plant ac oedolion sy’n dioddef cam-drin domestig drwy amharu ar ymddygiad y troseddwyr a’i newid.
- Mae The Drive Partnership yn cynnwys tri sefydliad, sef Respect, SafeLives a Social Finance, sy’n goruchwylio datblygiad a gweithrediad model Drive yn genedlaethol.
- Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer The Drive Partnership yw gweld ymateb diogel ac effeithiol i droseddwyr niwed uchel yn cael ei weithredu’n genedlaethol, a gweithio i ddod â cham-drin domestig i ben a gwarchod dioddefwyr drwy amharu, herio a newid ymddygiad troseddwyr cyfresol o risg uchel a niwed uchel.
- Mae The Drive Partnership yn darparu adnoddau a chymorth i ddarparwyr gwasanaethau megis Llawlyfr Ymarfer Drive, dulliau rheoli achosion, y system rheoli achosion, hyfforddiant i reolwyr achosion a rheolwyr gwasanaeth, a goruchwyliaeth barhaus gan gynghorydd ymarfer Drive.
- Y darparwr gwasanaethau ar gyfer rhaglen Drive yn Nyfed-Powys yw Threshold DAS.

Mae The Drive Partnership i fod i gael ei lansio ar 1 Ebrill gyda’r bwriad o gynnal cyfarfod cyntaf y panel ym mis Mai.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# MATAC

## Tasgio a chydlynu amlasiantaeth

Nod MATAC yw:

- Gweithredu fel fforwm i weithwyr proffesiynol amlasiantaeth gasglu, trafod a rhannu gwybodaeth yn ymwneud â throseddwyr cam-drin domestig sy'n niwed uchel a risg uchel.
- Cadw diogelwch dioddefwyr / goroeswyr a phlant wrth wraidd y sefyllfa: cydnabod llais y dioddefwyr a'r goroeswyr, ystyried effaith camau gweithredu arfaethedig ar y risg i ddioddefwyr a phlant, a gweithio gyda'r asiantaethau perthnasol i ddiogelu.
- Cael ei arwain gan yr heddlu, gyda chyfraniad sefydliadau statudol a gwirfoddol, sy'n ymwneud â datrysiadau amlasiantaeth i gam-drin domestig.
- Asesu'r risg a'r niwed a achosir gan bob troseddwr, gan ddefnyddio dull asesu risg a/neu niwed cydnabyddedig wedi ei werthuso yn seiliedig ar wybodaeth a rennir gan asiantaethau partner.
- Ceisio lleihau'r risg o niwed a achosir gan y rheini a nodwyd eu bod yn niwed uchel, risg uchel trwy ddull cydlynol gan ddefnyddio technegau datrys problemau ac ystod o opsiynau tactegol.
- Gweithredu fel y prif bwynt asesu atgyfeirio ar gyfer ymyriad Drive, gan benderfynu pa achosion fydd fwyaf priodol ar gyfer rheoli achosion dwys, amharu a gwaith newid ymddygiad.
- Datblygu camau gweithredu i reoli risg, cytuno ar amserlenni ar gyfer cwblhau camau gweithredu ac olrhain canlyniad a chydymffurfedd â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.
- Sefydlu a goruchwylio protocol ar gyfer rheoli ac olrhain cyfrifoldeb / perchnogaeth achosion a chamau gweithredu i fonitro effaith, a dwyn asiantaethau i gyfrif am gwblhau camau gweithredu.
- Datblygu cronfa ddata o gyflawnwyr cam-drin domestig sy'n achosi niwed uchel a risg uchel i lywio'r ymateb strategol lleol i gam-drin domestig.
- Alinio â'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), MAPPA, IOM a fforymau rheoli troseddwyr eraill sy'n gweithredu yn yr ardal.

MATAC yw'r prif fecanwaith atgyfeirio i'r rhaglen Drive



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# CARA (rhybuddiad a cham-drin perthynas)

Mae CARA yn ymyriad cynnar ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig sydd wedi cael rhybuddiad amodol.

Mae CARA wedi ei gynllunio i wella nid yn unig ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, ond hefyd gwella hunanymwybyddiaeth a’r cymhelliant i fynd i’r afael ag ymddygiadau a’r broses o wneud newidiadau.

Mae’n cefnogi troseddwyr i ddeall beth yw cam-drin domestig, y niwed y mae eu gweithredoedd wedi ei achosi, yr effaith y mae hyn wedi ei chael ar eu partneriaid, plant a pherthnasoedd, a sut i wneud dewisiadau gwahanol yn y dyfodol ac atal yr ymddygiadau niweidiol hyn rhag cael eu hymwreiddio mwy.

Caiff CARA yn Nyfed-Powys ei ddarparu gan Threshold DAS trwy gonsortiwm, ac fe’i lansiwyd ym mis Mehefin 2025.

Threshold DAS – A safe place for anyone affected by domestic abuse.

Mae prosiect CARA bellach mewn sawl ardal heddlu, gan gynnwys Hampshire, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Swydd Gaerlŷr, Swydd Gaergrawnt, Avon a Gwlad yr Haf, Dorset, Gorllewin Swydd Efrog, Norfolk, Dyffryn Tafwys a phob un o’r pedwar heddlu yng Nghymru.

Themâu CARA:

- Deall cam-drin domestig
- Effaith cam-drin
- Atebolrwydd a chyfrifoldeb
- Perthnasoedd iach
- Rheoleiddio emosiynol a rheoli gwrthdaro
- Agweddau, credoau, a newid ymddygiad
- Cymhelliant i newid

Y canlyniadau disgwyliedig i droseddwyr yw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth uwch, atebolrwydd, cymhelliant i newid, sgiliau ymarferol, llai o risg o aildroseddu ar unwaith a chanlyniadau cyfreithiol a gweithdrefnol.

Er bod y rhaglen yn ei chamau cychwynnol yn Nyfed-Powys, mae adborth cenedlaethol ar y rhaglen yn cynnwys y canlynol:

Adborth gan ddioddefwyr – nododd 63% o ddioddefwyr sy’n dal i fod mewn cysylltiad â’r troseddwr newidiadau cadarnhaol ers eu gweithdy cyntaf. Yn cynnwys eu trin â mwy o barch, gwrando mwy, eu partner yn gwneud mwy o ofal plant, a’u partner yn rheoli eu dicter yn well.

Adborth gan droseddwyr – nododd 80–90% newid yn eu hymagwedd tuag at eu hymddygiad eu hunain a thuag at y dioddefwr.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cyfiawnder adferol

Beth yw cyfiawnder adferol?
Dull o ymdrin â chyfiawnder sy’n canolbwyntio ar atgyweirio niwed, cymodi dioddefwyr, troseddwyr a chymunedau, ac atal troseddau yn y dyfodol.

Mae gan ddioddefwyr y cyfle i drafod:

- Beth a ddigwyddodd yn ystod y drosedd
- Sut yr effeithiwyd ar y dioddefwr ac eraill gan yr hyn a ddigwyddodd
- Pa gwestiynau a phryderon sydd gan y dioddefwr yn sgil y drosedd
- A oes pethau y gellid eu gwneud fel rhan o ddedfryd y troseddwr a fyddai’n gwella pethau

MAE CYFIAWNDER ADFEROL YN RHOI LLAIS I CHI

Ar y gweill:
Bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i swyddogion rheng flaen o ran sut i siarad â dioddefwyr a throseddwyr am gyfiawnder adferol a’r buddion y gallai eu cynnig i’r ddwy ochr.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
Cyfiawnder adferol | Heddlu Dyfed-Powys

Beth yw cyfiawnder adferol? | Cyngor Cyfiawnder Adferol



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cynllun gwneud iawn â’r gymuned

Mae cynllun gwneud iawn â’r gymuned yn gynllun pan fo troseddwyr yn gweithio ar brosiectau i wneud iawn â’r gymuned am eu troseddau.

Mae nifer o egwyddorion craidd y tu ôl i brosiectau gwneud iawn â’r gymuned, gan gynnwys cosb gredadwy, gwelededd, adsefydlu, diogelwch y cyhoedd a chyfranogiad y cyhoedd. Y mathau o brosiectau a gwblheir yw rhai sy’n fuddiol i’r gymuned, lle yn ddelfrydol maent wedi eu henwebu gan y cyhoedd, ac nid yw’n cymryd cyflogaeth am dâl i ffwrdd.

Mae enghreifftiau’n cynnwys y canlynol:

- cael gwared ar graffiti
- clirio tir gwastraff
- gwella ac addurno lle neu adeilad cyhoeddus, fel canolfan gymunedol
- ailbaentio ardaloedd cymunedol
- gwneud llwybrau’n hygyrch
- clirio lonydd
- gwneud gwaith cynnal a chadw tiroedd a garddio
- plannu coed
- codi sbwriel





Rhaid i’r gwaith:

- fod er budd i’r gymuned leol
- peidio â chymryd gwaith â thâl oddi wrth eraill
- peidio â gwneud elw i unrhyw un

Mae Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu SCHTh yn cwrdd ag HMPPS i drafod cynorthwyo hyrwyddo’r cynllun i elusennau a grwpiau cymunedol yn ardal Dyfed-Powys, a chysylltu rhywfaint o weithgarwch ymgysylltu fel rhan o ddiwrnodau ymgysylltu â’r gymuned y CHTh.





Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cynllun gwneud iawn â’r gymuned

## Enwebu prosiect gwneud iawn â’r gymuned

Cwblhewch y ffurflen ar-lein.
Bydd arnoch angen y canlynol:

- enw’r prosiect neu’r sefydliad
- lle byddai’r gwaith yn digwydd
- gwybodaeth am doiledau a chyfleusterau ymolchi dwylo cyfleusterau
- gwybodaeth am hygyrchedd safle ar gyfer pobl â phroblemau symudedd
- disgrifiad byr o’r gwaith y mae angen ei wneud
- eich manylion cyswllt
- Gallwch hefyd rannu lluniau o safle’r prosiect i gefnogi eich enwebiad.









Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod

Ymrwymodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys i gefnogi gwaith y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod.

Bu cynnydd sylweddol o ran canolbwyntio ar draws y system i drawsnewid gwasanaethau mewn ffordd gadarnhaol, ac ystyried anghenion penodol menywod sydd yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, neu sydd mewn perygl o fynd i mewn iddi.

Mae partneriaid wedi gweithio’n ddiflino i ddatblygu gwasanaethau sy’n diwallu anghenion a phrofiadau cymhleth menywod agored i niwed o bob cefndir yn well.

Mae gwaith yn parhau i adeiladu ar y fframwaith a’r egwyddorion presennol i barhau i ymgorffori arferion gorau yn y system gyfiawnder i fenywod yng Nghymru. Gwneir hyn drwy sicrhau’r canlynol:

- Cydnabyddiaeth barhaus o anghenion penodol menywod
- Bod y glasbrint yn sail i fusnes fel arfer
- Datblygir meysydd gwaith newydd yn unol ag egwyddorion y glasbrint a chanllawiau arferion gorau
- Gweithio mewn partneriaeth a chyd-gyflwyno parhaus



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Canolfan Menywod – Caerfyrddin

Agorodd y Ganolfan Menywod yng Nghaerfyrddin yn 2023, ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaeth hanfodol i fenywod. Mae cynlluniau ar waith i ehangu'r gwasanaeth a symud i adeilad mwy y flwyddyn nesaf.

*Mae Canolfan Menywod Ymddiriedolaeth Nelson yn cynnig lle diogel sy'n ystyriol o drawma ac yn ymatebol i rywedd, lle gall menywod ddod a chael y cymorth y mae ei angen arnynt. Rydym yn gweld menyw yng nghyd-destun ei bywyd. Rydym yn cynnig cymorth cyfannol gan ofyn iddi am ei hanghenion o ran iechyd, tai, perthnasoedd, a oes ganddi blant, sut beth yw ei sefyllfa ariannol, beth yw ei phrofiadau bywyd, a beth yw ei breuddwydion a'i dyheadau.*

*Rydym yn gweithredu fel siop un stop, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau arbenigol lleol, ac rydym yn gwahodd partneriaid arbenigol i mewn i ddarparu cymorth a sesiynau galw heibio, fel swyddogion prawf, clinigau iechyd rhywiol a meddygon teulu a nyrsys.*

*Mae pob menyw sy'n cael mynediad at gymorth yn cael gweithiwr allweddol pwrpasol a fydd yn gweithio'n agos gyda nhw drwy gydol eu taith cymorth. Gall hyn gynnwys ymyriadau unigol neu mewn grŵp.*

*Gwasanaethau a gynigir gan y ganolfan hon*

<u>Gwasanaeth</u>

*Cymorth y Ganolfan Menywod*

*Bydd y cymorth sydd ar gael yng Nghanolfan Menywod Ymddiriedolaeth Nelson wedi ei theilwra i ddiwallu anghenion y fenyw.*

THE NELSON TRUST

*<u>Arbenigeddau</u>*

- Llety
- Cymorth ymddygiadol
- Cam-drin domestig
- Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Teulu, rhianta a pherthnasoedd
- Cyllid, budd-daliadau a dyled
- Iechyd meddwl
- Ymhlith cymheiriaid
- Iechyd a llesiant corfforol
- Trais rhywiol a chamfanteisio
- Camddefnyddio sylweddau

Oriau agor: dydd Llun–dydd Gwener 10:00-17:00

Gwybodaeth gyswllt
Cyfeiriad:
Heol Dolgwili
Caerfyrddin
SA31 2AF

Rhif ffôn:
01267 235151

Cyfeiriad e-bost:
wales.info@nelsontrust.com

Dolen y wefan

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Deddfwriaeth



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Adolygiad dedfryd / Adroddiad Leveson

Mae Deddf Dedfrydu 2026 yn cynrychioli'r adolygiad mwyaf cynhwysfawr o ddeddfwriaeth dedfrydu yng Nghymru a Lloegr ers blynyddoedd lawer, gan gynrychioli newid sylweddol yn y ffordd y bydd llysoedd yng Nghymru a Lloegr yn ymdrin â chosb, risg ac adsefydlu.

Daeth y Ddeddf Dedfrydu i rym ar 22 Mawrth 2026, a chyflwynodd newidiadau i'r ffordd y mae llysoedd yn ymdrin â throseddu lefel is a dedfrydau carchar byr.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn y Ddeddf Dedfrydu yma:

- Deddf Dedfrydu 2026

a manylion y gwelliannau i'r fframwaith mechnïaeth gan y Ddeddf Dedfrydu yma:

- Diwygiadau i'r Ddeddf Mechnïaeth

Yn ogystal â diwygiadau'r Ddeddf Dedfrydu, comisiynwyd Syr Brian Leveson i gynnal adolygiad annibynnol o'r llysoedd troseddol.

Cwblhawyd yr adolygiad hwn yn gynharach eleni gydag adroddiadau yn cael eu cyhoeddi mewn dwy ran.

- Rhan Un – cyhoeddwyd 9 Gorffennaf 2025
- Rhan Dau – cyhoeddwyd 4 Chwefror 2026

Mae'r Llywodraeth wedi darparu ymatebion dros dro i'r ddwy ran o'r adolygiad.

Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog:

- 2 Rhagfyr 2025
- 24 Chwefror 2026



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner